

# HUGHES, DAVID ROWLAND ('Myfyr Eifion'; 1874 - 1953), ysgrifennydd yr Eisteddfod Genedlaethol

**Enw:** David Rowland Hughes  
**Ffugenw:** Myfyr Eifion  
**Dyddiad geni:** 1874  
**Dyddiad marw:** 1953  
**Priod:** Maggie Hughes (née Ellis)  
**Rhiant:** Elizabeth Hughes  
**Rhiant:** William Hughes  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** ysgrifennydd yr Eisteddfod Genedlaethol  
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod  
**Awdur:** Mary Auronwy James

Ganwyd 9 Medi 1874 ym Maesglas, Holywell, Flint, yn fab i'r gorsaf-feistr William Hughes ac Elizabeth ei wraig. Addysgwyd ef yn ysgolion elfennol Porthmadog a Bangor; ysgol golegol Llandudno (1888-91); a cholegau Prifysgol Cymru ym Mangor (1891-92) ac yn Aberystwyth, ond bu'n rhaid iddo adael yn gynnar i ennill ei damaid. Dychwelodd i'w hen ysgol yn Llandudno fel athro am flwyddyn cyn troi i fyd busnes. Aeth i Lundain yn 1894 ac yno y bu am 45 mlynedd hyd nes iddo ymddeol o'i waith fel uchel-swyddog gyda chwmni United Dairies a symud i Hen Golwyn.

Bu'n aelod blaenllaw ym mhob agwedd ar fywyd ymhlith Cymry Llundain gan fod yn gydysgrifennydd Eisteddfod Genedlaethol Llundain yn 1909 ac ysgrifennydd Eglwys Falmouth Road (MC). Gweithiodd yn galed dros Urdd Gobaith Cymru yn y ddinas a rhoddai sgysiau ar y radio a darlithiau poblogaidd. Golygodd (1920-39) *Our Notebook*, sef cylchgrawn staff United Dairies a bu'n gyd-olygydd (1926-38) cylchgrawn Cymry Llundain, *Y Ddolen*, gyda [John Williams](#) (1872 - 1944), gan ysgrifennu iddo o dan yr enwau 'Tafwys', 'A wayfarer', a 'Hafren'. Wedi dychwelyd i Gymru etholwyd ef yn drysorydd (1941) a llywydd (1944-45) Undeb Cymru Fydd ac ef oedd un o brif arloeswyr a sylfaenwyr Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon yn 1925 ac un sir Ddinbych yn 1950. Ond ei brif gyfraniad i Gymru oedd fel ysgrifennydd Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1935-36, a chyd-ysgrifennydd gyda [Chynan](#) (Cynan Evans Jones) wedi uno'r gymdeithas â Gorsedd y Beirdd yn 1937, hyd 1947. Ei waith di-ildio ef a sicrhodd barhad yr Eisteddfod trwy gydol dyddiau anodd y rhyfel. Ef hefyd a sicrhodd, ar waethaf prinder papur, gyhoeddi'r misolyn *Cofion Cymru* (1941-46), a'r chwe 'llyfr anrheg' (1943-46) a ddosbarthwyd yn rhad i'r Cymry yn y lluoedd arfog, ac a werthfawrogyd yn fawr ganddynt (gweler llawysgrifau D.R. Hughes yn Ll.G.C.). Yn 1943 derbyniodd radd M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru am y gwaith hyn.

Priododd, 4 Ebrill 1903, â Maggie Ellis, Llundain, a bu iddynt dair merch. Bu farw 29 Awst 1953 a'i gladdu ym mynwent Bron-y-nant.

## Awdur

Dr Mary Auronwy James

## Ffynonellau

D. R. Hughes, *Yma ac Acw* (Dinbych 1944)

E. H. Griffiths, *Bywyd a gwaith D.R. Hughes* (Caernarfon 1965)

*Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price*

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20821110](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

